Ms Catherine Green
The Bay Health and Beauty Clinic
28 Ffordd Conwy
Bae Colwyn
LL29 7HJ

Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8163
Ffacs: 0300 062 8387
E-bost: HIWInspections@wales.gsi.gov.uk

5 Awst 2014

Annwyl Ms Green,

**Par: Ymweliad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, lle rhoddwyd rhybudd, â Bay Health and Beauty Clinic ar 15 Gorffennaf 2014**

Fel y gwyddoch, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymweliad lle rhoddwyd rhybudd â Bay Health and Beauty Clinic ar 15 Gorffennaf 2014.

**Cefndir**

Canolbwyntiodd yr ymweliad arolygu ar ddadansoddi ystod o ddogfennaeth, trafod â'r Rheolwr Cofrestredig ac adolygu'r cyfleusterau laser. Cafwyd bod y cyfleuster laser yn lân a bod offer addas ar gael yno.

Roedd y Datganiad o Ddiben a'r Canllawiau i Gleifion ar gael ond roedd angen diweddaru'r Datganiad o Ddiben. Hysbyswyd aelodau'r tîm arolygu fod y dogfennau hyn yn cael eu rhoi i'r cleifion ond nid oedd y dogfennau ar gael yn yr ystafelloedd aros ac yn ystod yr arolygiad fe drafodwyd y ffaith fod angen iddynt fod.

Nid oedd gwybodaeth am foddhad y cleifion ar gael, gan nad oedd gwybodaeth wedi ei chasglu yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Fodd bynnag, roedd holiaduron boddhad cwsmer ar gael i gleifion eu cwblhau. Mae'n ymddangos bod cleifion wedi anghofion cwblhau'r holiaduron. Mae peth adborth gan gleifion ar gael drwy wefannau cymdeithasol. Trafodwyd yr angen i gynnwys arolygon boddhad cleifion yn y Canllawiau i Gleifion yn ystod yr arolygiad. Hysbyswyd y tîm arolygu na chafwyd unrhyw gwynion ers yr arolygiad diwethaf.

Roedd canlyniadau triniaethau cleifion yn cael eu trafod yng nghyfarfod dyddiol y tîm staff, er nad oedd y trafodaethau hyn yn cael eu cofnodi. Trafodwyd hyn â'r Rheolwr Cofrestredig a'r cyngor a roddwyd oedd y dylid cadw cofnod o'r wybodaeth hon at ddibenion archwilio. Adolygwyd cofnodion y cleifion ac roeddent yn cynnwys



Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

ffurflenni caniatâd, trefn triniaethau a gwybodaeth am hanes meddygol, a oedd yn cael ei diweddaru gyda phob ymweliad.

Roedd gan y clinig bolisïau priodol ond roedd angen iddynt gael polisi ar waredu gwastraff. Roedd trefniadau'n cael eu gwneud ar gyfer cynnal hyfforddiant gorfodol eleni ar reoli data, iechyd a diogelwch, rheoli heintiau, Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed a delio â digwyddiadau niweidiol.

Roedd y sefydliad yn lân a thaclus ond nid oedd unrhyw dystiolaeth o restrau gwaith glanhau nac archwiliadau glanhau. Roedd ganddynt asesiadau risg ond nid oedd unrhyw dystiolaeth i'r rhain gael eu hadolygu ers 2012.

Adolygwyd ffeiliau staff ac roedd angen diweddaru data Swyddfa Cofnodion Troseddol/Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chynnwys ffotograffau o staff yn y ffeiliau.

**Y Safle, yr Amgylchedd a'r Cyfleusterau**

Roedd y safle'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac roedd wedi'i addurno'n ddel. Roedd sawl ystafell ar gael i gynnig gwahanol driniaethau. Ar lawr gwaelod yr adeilad y ceid yr ystafell laser, ar yr ochr dde yn y cefn.

Peiriant cyfun Laser Golau Pwls Dwys (IPL) o wneuthuriad Lynton Lumina sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd, ac roedd protocolau meddygol a rheolau lleol ar gael ar ei gyfer. Roedd cytundeb gwasanaeth ar ei gyfer ac roedd y peiriant wedi cael ei wasanaethu a'i raddnodi. Roedd y contract â'r Ymgynghorydd Gwarchodaeth Laser ar gyfer y cyfnod o 21 Gorffennaf 2013 i 20 Gorffennaf 2014 a byddai angen ei adnewyddu'n fuan. Roedd y Goruchwyliwr Amddiffyn Laser a'i chynorthwyydd hefyd wedi bod ar gyrsiau hyfforddi yn ddiweddar, yn ystod mis Gorffennaf 2013.

Roedd y larwm tân yn cael ei brofi'n rheolaidd a rhoddwyd y dystysgrif ddiwethaf ar 1 Ebrill 2014. Cafodd yr offer diffodd tân ei wasanaethu ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2013 ac roedd offer diffodd $CO_2$ wedi'i osod ar y wal yn y coridor yn agos iawn at yr ystafell triniaeth laser. Edrychwyd ar yr asesiad risg tân ac roedd wedi cael ei adolygu ar 31 Mai 2014, pan nad oedd angen unrhyw newid iddo. Roedd gwifrau'r prif gyflenwad trydan wedi cael eu profi ar 16 Mehefin 2014 ac fe ddisgwylid y dystysgrif. Gwelwyd tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr, a adnewyddwyd yn ddiweddar ac a fyddai'n ddilys tan 15 Gorffennaf 2015.

Tynnodd yr ymweliad sylw at y materion a ganlyn sydd yn haeddu eu nodi:

- Mae'r gofal yn canolbwyntio ar unigolion ac mae preifatrwydd, urddas ac anghenion unigol yn cael eu hystyried
- Roedd nodiadau'r cleifion yn rhoi gwybodaeth lawn ac yn cael eu diweddaru


Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

Pryderon:

- Mae angen diweddaru'r hyfforddiant ar reoli heintiau, iechyd a diogelwch, diogelu data, amddiffyn oedolion agored i niwed a delio â digwyddiadau niweidiol.
- Mae angen archwilio'r rhestrau gwaith glanhau
- Mae angen arolwg boddhad cleifion
- Roedd angen adolygu'r asesiadau risg
- Mae angen data Swyddfa Cofnodion Troseddol/Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a ffotograffau o'r staff
- Nid oes polisi ar gyfer gwaredu gwastraff
- Cadw cofnodion digonol o'r gosodiadau

Rhoddwyd adborth ar lafar trwy gydol yr arolygiad ac ar ei ddiwedd.

**Gofynion newydd yn sgil yr Arolygiad hwn**

| **Gweithred** | **Rhif y Rheoliad** |
|---|---|
| Mae angen diweddaru'r hyfforddiant ar amddiffyn oedolion agored i niwed a delio â digwyddiadau niweidiol | Rheoliad20(1)(a)(b) & 20 (2)(a) (b) |
| Mae angen diweddaru'r Datganiad o Ddiben | Rheoliad 8 |
| O dan hyfforddiant gorfodol, nid oedd cofnodion clir i ddangos pa hyfforddiant a gafwyd | Rheoliad 20(1)(a)(b) &20 (2) (a) (b) |
| Mae angen statws Swyddfa Cofnodion Troseddol/Gwasanaeth Dategelu a Gwahardd a ffotograffau o'r staff | Rheoliad 20(1)(a)(b) & 20 (2) (a) (b) |
| Nid oedd cofnod o ganlyniadau arolygon boddhad cwsmer | Rheoliad 19(2)(b)(i)& (c)(i)(ii)&(d) |
| Roedd angen diweddaru'r drefn rheoli risg | Rheoliad 9(1) (d) (ng) |
| Mae angen polisi gwaredu gwastraff | Rheoliad 9(1) (l) |
| Anfon ymlaen gopi o'r dystysgrif ailarchwilio | Rheoliad 26(2)(a) - |



Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

| | |
|---|---|
| cyfnodol trydan, ar gyfer y gwifrau trydan yn yr adeilad | Cwblhawyd |

Hoffai AGIC ddiolch i’r holl staff am eu hamser a’u cydweithrediad yn ystod yr ymweliad.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os dymunwch drafod cynnwys y llythyr hwn.

Yn gywir iawn



**Phil Price**
Rheolwr Arolygu



Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk